General Dental Council | diogelu cleifion, rheoleiddio'r tîm deintyddol

Y CYNGOR DEINTYDDOL CYFFREDINOL

# STRATEGAETH GORFFORAETHOL

2010-2014

www.gdc-uk.org



## EIN DIBEN ALLWEDDOL

# **Diogelu cleifion, rheoleiddio'r tîm deintyddol.** Dyna'r rheswm dros ein bodolaeth.

Rydym yn cefnogi ansawdd ymarfer ac enw da'r proffesiwn trwy osod safonau, eu hyrwyddo a chymryd camau gweithredu pan nad ydynt yn cael eu bodloni.

**Mae hyn oll yn sicrhau bod cleifion yn cael eu diogelu.**



Clawr blaen:
**Colette Cloete, claf, a Frances MacKay, arbenigwr mewn deintyddiaeth orthodontig**

Y dudalen hon:
**Rob Hale, arbenigwr mewn deintyddiaeth gofal arbenigol**

## EIN GWERTHOEDD

Mae ein gwerthoedd yn llywio'r ffordd rydym yn cyflawni ein diben allweddol. Maent yn diffinio pwy ydym ni a sut rydym yn mynd ati i reoleiddio.

- **Mae rheoleiddio yn gymesur, yn gyson, yn dryloyw, yn atebol ac wedi'i dargedu**
- **Mae polisi yn cael ei ddatblygu ar sail ymgynghori a thystiolaeth**
- **Mae adnoddau yn cael eu rheoli'n effeithiol, effeithlon a chynaliadwy**
- **Caiff penderfyniadau eu gwneud ar y cyd mewn dull cadarn ac atebol**
- **Caiff y sefydliad ei arwain ar sail strategol a moesegol**
- **Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ganolog i'n polisïau, systemau a phrosesau**
- **Rydym yn rheoli pobl mewn modd agored, teg ac adeiladol**





David Simm,
technegydd deintyddol

## EIN HAMCANION

Mae rheoleiddio deintyddol llwyddiannus yn ddibynnol ar ein perthynas ag amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau. Mae'r map gyferbyn yn dangos sut rydym yn gosod y bobl a'r sefydliadau hyn.

Mae cleifion yn ganolog i'n gwaith. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr egwyddor ymarfer cyntaf ym maes deintyddiaeth ar gyfer y tîm deintyddol:

**"Rydym yn rhoi buddion cleifion yn gyntaf ac yn gweithredu er mwyn eu diogelu."**




Gabriele Goddard, technegydd deintyddol

## Mae gennym amcanion clir ar gyfer ein perthynas â phob grŵp o bobl a sefydliadau...

### Cleifion/Y Cyhoedd

**Rhoi sicrwydd i gleifion a'r cyhoedd bod aelodau'r tîm deintyddol yn addas i ymarfer**

Byddwn yn helpu cleifion i ddeall beth i'w ddisgwyl gan eu gweithiwr proffesiynol deintyddol, beth i'w wneud os nad yw eu disgwyliadau'n cael eu bodloni a pha gamau rydym yn eu cymryd i'w diogelu.

### Y Tîm Deintyddol

**Cefnogi'r gwaith o gynnal safonau proffesiynol ar draws y tîm deintyddol**

Byddwn yn gosod safonau trwy ymgynghori â'r tîm deintyddol a rhanddeiliaid eraill. Byddwn yn sicrhau bod y rhai sydd ar y gofrestr yn deall gofynion rheoleiddio, sut i'w bodloni a pham eu bod yn bwysig.

### Y Sector Deintyddol

**Dangos yn glir sut y bydd egwyddorion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu gweithredu wrth ymarfer er mwyn cyflawni ein diben statudol**

Byddwn yn meithrin cysylltiadau effeithiol gyda sefydliadau addysgol, sefydliadau indemniad a rhannau eraill o'r sector deintyddol er mwyn cefnogi'r sector yn y gwaith o ddatblygu tîm deintyddol sy'n addas i ymarfer.

Byddwn yn sicrhau ansawdd canlyniadau addysg a hyfforddiant.

### Maes Polisi

**Sefydlu partneriaethau effeithiol gyda'n rhanddeiliaid er mwyn cyflawni ein diben statudol.**

Byddwn yn helpu rhanddeiliaid i lunio a gweithredu'r fframwaith polisi sy'n rheoli gwaith pawb ohonom, er mwyn diogelu cleifion yn y ffordd orau

Bydd hyn yn cynnwys dylanwadu ar yr amgylchedd polisi rheoliadol lle mae'n effeithio ar ddiogelwch cleifion yng Nghymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon a chyfrannu at ddylanwadu ar gyd-destun Ewropeaidd lle caiff y polisi hwn ei benderfynu.

Byddwn yn meithrin cysylltiadau cadarn hefyd gyda rheoleiddwyr eraill er mwyn sicrhau bod y gwaith o reoleiddio'r tîm deintyddol mor ddi-dor â phosibl.

## ...ac i sicrhau effeithlonrwydd

### Gwerth am Arian

**Rheoleiddio'n effeithlon ac effeithiol er mwyn cyflawni ein diben statudol**

Gan fod yr arian rydym yn ei wario yn dod gan y rhai ar y gofrestr, byddwn yn gweithio'n galed i sicrhau bod y baich rydym yn ei roi ar y rhai sydd wedi cofrestru yn gymesur a theg, yn ariannol ac yn weinyddol.



Arlene Mitchell a Maria Goodier, nyrsys deintyddol

## EIN HAMCANION

Mae gennym amcanion clir ar gyfer pob un o’n swyddogaethau rheoleiddio craidd ac ar gyfer ein dull o sicrhau gwerth am arian. Bydd ein cynllun busnes ac ariannol blynyddol yn amlinellu’r camau y byddwn yn eu cymryd er mwyn cyflawni’r amcanion hyn a’r arian y byddwn yn ei wario ar gyfer gwneud hynny.



Brian Braithwaite,
technegydd deintyddol

## SAFONAU

| | AMCAN | DANGOSYDD LLWYDDIANT |
|---|---|---|
| 1 | Sicrhau bod ein safonau yn briodol ac yn parhau i ddiogelu cleifion a'r cyhoedd | Cynhyrchu cyfres gynhwysfawr o safonau sy'n cael ei derbyn gan y tîm deintyddol fel y safon broffesiynol. |
| 2 | Diffinio cwmpas ymarfer i bob aelod o'r tîm deintyddol er mwyn sicrhau diogelwch cleifion | Y tîm deintyddol yn derbyn canllawiau ar gwmpas ymarfer fel y safon broffesiynol |
| 3 | Sefydlu polisi addasrwydd i ymarfer craidd | Pwyllgorau a gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer yn gwneud penderfyniadau dilys a chyson |
| 4 | Gweithredu strategaeth gyfathrebu ynglŷn â'n safonau rheoleiddio i gleifion a'r cyhoedd, i'r tîm deintyddol, i'r sector deintyddol a'r maes polisi | Y tîm deintyddol yn deall beth sy'n ddisgwyliedig ganddynt a chleifion a'r cyhoedd yn deall beth allent ei ddisgwyl gan y tîm deintyddol. |





Suzanne Dunkley, arbenigwr mewn deintyddiaeth baediatrig, yn trin Ella Whiting

# COFRESTRU

| | AMCAN | DANGOSYDD LLWYDDIANT |
|---|---|---|
| 1 | Sicrhau bod y gofrestr yn gyfredol, yn hygyrch ac yn briodol ar gyfer ein gwahanol gynulleidfaoedd | Cleifion a'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn defnyddio'r gofrestr yn hyderus fel sail i'w dewisiadau |
| 2 | Sicrhau diogelwch cleifion a'r cyhoedd trwy gynnal mesurau gwirio cyn rhoi unigolyn ar y gofrestr | Mae nifer y cwynion am Addasrwydd i Ymarfer aelodau newydd y gofrestr yn gostwng bob blwyddyn |
| 3 | Sicrhau bod pob un sydd ar y gofrestr yn parhau i ymarfer yn broffesiynol trwy ddarparu tystiolaeth o ymarfer diogel a chymwys parhaus | Mae archwiliadau datblygiad proffesiynol parhaus a'r cynllun ail-ddilysu yn darparu tystiolaeth gadarn a dibynadwy bod y rhai ar y gofrestr yn addas i ymarfer |
| 4 | Darparu tystiolaeth gadarn ar gyfer tynnu neu ailgyflwyno rhywun i'r gofrestr, ar sail diogelwch cleifion | Mae'r gofrestr yn cynnwys y rhai sy'n addas i ymarfer yn unig |




Stephen Dunne, arbenigwr mewn deintyddiaeth adferol a Jillian Eastmond, nyrs ddeintyddol

## ADDASRWYDD I YMARFER

| | AMCAN | DANGOSYDD LLWYDDIANT |
|---|---|---|
| 1 | Gweithredu prosesau addasrwydd i ymarfer sy’n bodloni amrywiaeth o feini prawf perfformiad allanol | Dangos bod ein perfformiad ymhlith chwartel uchaf rheoleiddwyr gofal iechyd proffesiynol a’n bod yn bodloni disgwyliadau rhanddeiliaid |
| 2 | Gweithredu proses systematig er mwyn gwerthuso gweithdrefnau a chanlyniadau addasrwydd i ymarfer | Mae’r system yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr a dibynadwy ar gyfer y cyhoedd, y rhai ar y gofrestr a’r Cyngor |
| 3 | Gweithredu system rheoli achosion effeithiol | Mae’r system rheoli achosion yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr a dibynadwy ar gyfer y cyhoedd, y rhai ar y gofrestr a’r Cyngor ac yn lleihau cyfnod ymdrin ag achosion |
| 4 | Egluro a chyfathrebu beth yw ymarfer deintyddiaeth | Mae ein holl randdeiliaid yn deall beth mae ymarfer deintyddiaeth yn ei olygu |





Julia Brewin,
hylenydd deintyddol

# ADDYSG/SICRWYDD ANSAWDD/AIL-DDILYSU

| | AMCAN | DANGOSYDD LLWYDDIANT |
|---|---|---|
| 1 | Sicrhau bod ein gwaith o sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant deintyddol yn cyflawni ein diben statudol | Fframwaith sicrhau ansawdd cadarn a chynhwysfawr ar waith trwy gydol ein cylch gwaith addysg a hyfforddiant |
| 2 | Datblygu fframwaith o ganlyniadau addysg sydd â'r nod o sicrhau addasrwydd i ymarfer ar gyfer cofrestru cychwynnol, arbenigol a pharhaus | Sefydlu canlyniadau addysg a hyfforddiant ar gyfer pob cam o addysg a hyfforddiant y DU |
| 3 | Gweithredu cynllun ail-ddilysu ar gyfer deintyddion a chwblhau'r gwaith o ddatblygu cynllun ail-ddilysu ar gyfer gweddill y tîm deintyddol | System ail-ddilysu sy'n llwyr weithredol sydd â chefnogaeth y cyhoedd a'r tîm deintyddol |
| 4 | Datblygu rhestrau arbenigol ar draws y tîm deintyddol sy'n atgyfnerthu dewisiadau cleifion a'r rhai ar y gofrestr a diogelwch cleifion mewn modd cadarnhaol | Cleifion a'r cyhoedd yn defnyddio rhestrau yn hyderus fel sail i'w dewisiadau a gostyngiad mewn achosion addasrwydd i ymarfer sy'n ymwneud â darparu arbenigaethau |





Prabhdeep Ryatt, deintydd

## GWERTH AM ARIAN

| | AMCAN | DANGOSYDD LLWYDDIANT |
|---|---|---|
| 1 | Cynyddu ein hadnoddau mewn modd cyfrifol | Gosod y ffi cadw blynyddol ar y gyfradd isaf er mwyn ein galluogi i gyflawni ein diben statudol |
| 2 | Bod yn atebol am ein penderfyniadau gwariant | Cyhoeddi’r Adroddiad Blynyddol a’r Cyfrifon a sicrhau bod gwybodaeth ar gael i’r cyhoedd trwy bapurau’r Cyngor |
| 3 | Targedu ein hadnoddau yn effeithlon ac effeithiol | Defnyddio ein hadnoddau er mwyn cyflawni ein cynllun strategol |
| 4 | Rheoli ein hadnoddau yn unol â dulliau llywodraethu da | Cyflawni ein polisïau, ein systemau a’n prosesau yn unol â’n hegwyddorion a’n safonau llywodraethu corfforaethol |
| 5 | Gwneud penderfyniadau agored a thryloyw trwy ddulliau llywodraethu effeithiol | Mae ein penderfyniadau yn effeithiol a thryloyw |



Simon Edwards, claf

Gwnewch yn siŵr bod eich gweithiwr deintyddol proffesiynol wedi'i gofrestru: **www.gdc-uk.org**

Rydym am sicrhau bod ein holl wasanaethau yn hygyrch i bawb.

Os hoffech dderbyn copi o'r daflen hon mewn fformat gwahanol (er enghraifft, mewn print mawr neu ar dâp sain) neu mewn iaith arall, cysylltwch â ni.

**GENERAL DENTAL COUNCIL**
37 Wimpole Street
London
W1G 8DQ

**Ffôn:** 0845 222 4141
**Ffacs:** 020 7224 3294
**Ffôn testun** (gan RNID Typetalk): 18001 0845 222 4141
**E-bost:** information@gdc-uk.org
**Gwefan:** www.gdc-uk.org

Awst 2010



Leonard Lake, technegydd deintyddol